# Safonau ar gyfer Derbyn Samplau Cyn Trallwyso yng Nghymru

## Cefndir

Mae diogelwch trallwysiadau gwaed yn dibynnu ar adnabod y claf cywir ar bob cam o'r broses. Mae hyn yn dechrau'n hollbwysig gyda labelu'r sampl cyn trallwysiad yn gywir gyda manylion y claf y cymerwyd y sampl ganddo.

Mae camgymeriadau'n digwydd ar y cam hwn o'r broses pan fydd sampl gwaed yn cael ei gasglu'n anghywir (gan y claf anghywir) neu'n cael ei gam-labelu (gydag un o'r pedwar dynodwr craidd ar goll, wedi'i ysgrifennu'n anghywir neu'r manylion yn annarllenadwy), gyda'r posibilrwydd o roi'r gwaed anghywir i'r claf anghywir.

Mae Cymdeithas Haematoleg Prydain (BSH)[1]yn datgan '*rhaid i'r gwaith o gasglu'r sampl gwaed gan y claf a chwblhau'r manylion wedi hynny ar y tiwb sampl gwaed gael ei wneud fel un digwyddiad di-dor wrth ochr y claf/wrth erchwyn gwely'r claf. Dylai'r broses gynnwys un claf ac un aelod o staff hyfforddedig, cymwys sydd wedi'i ddynodi'n lleol'.*

Dylai'r manylion ar y sampl cyn trallwysiad gynnwys y manylion canlynol o leiaf:

- Dynodwyr claf craidd: enw cyntaf, cyfenw, dyddiad geni, rhif adnabod unigryw
- Dyddiad ac amser cymryd y sampl
- Enw'r aelod o staff sy'n cymryd y sampl.

*D.S. Efallai y bydd angen y cyfeiriad cyntaf hefyd mewn rhai Byrddau Iechyd. Bydd hyn yn cael ei ddiffinio mewn polisi lleol*.

Rhaid i'r sampl gael ei labelu **ar ôl** ei gymryd **tra'ch bod yn dal i fod gyda'r claf**, rhaid i'r manylion gael eu hysgrifennu â llaw neu ddefnyddio label a gynhyrchwyd wrth ochr y claf gan argraffydd labeli 'ar-alw' a ddilyswyd at y diben hwn.

Mae'n ofyniad gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) y dylai fod gan labordai bolisïau ar waith ar gyfer rheoli sbesimenau sydd wedi'u labelu'n anghywir, ac y cedwir at y polisïau hyn yn gaeth.

Mae ISO 15189[1] UKAS (Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig) yn diffinio'r gofyniad ar gyfer manylion y dyddiad a'r amser y cymerwyd y sampl fel rhan o'u safonau labordy meddygol.

Mae polisïau gwrthod sampl cadarn y cyfeirir atynt fel arfer fel dull Dim Goddefgarwch, yn lleihau'r risg o roi'r canlyniad anghywir i glaf, ond gallant o bosibl arwain at oedi o ran argaeledd canlyniadau a darparu gwaed addas.  Mae cymhwyso argymhellion cenedlaethol ar gyfer labelu yn gyson a chytundeb ar draws ysbytai a labordai cyfeirio yn gyfraniad mawr at wella diogelwch cleifion.

Cyflwynwyd y safonau ar gyfer derbyn samplau cyn trallwysiad yng Nghymru yn 2010. Mae'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed (BHNOG) bellach yn gyfrifol am gymeradwyo adolygiadau a newidiadau i'r safonau hyn.

# Safonau ar gyfer Derbyn Samplau Cyn Trallwyso yng Nghymru

## Y Llenyddiaeth a'r Dystiolaeth a Ystyriwyd

*BSH Guideline for the haematological management of major haemorrhage (2022)*[2]
*Y digwyddiad niweidiol mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â thrallwysiad mewn argyfyngau yw trallwysiad ABO* anghydweddol*. Mae systemau adnabod cleifion a samplau cadarn ar gyfer cleifion anhysbys yn hanfodol er mwyn osgoi camgymeriadau mewn sefyllfaoedd brys a phan fo nifer fawr o bobl wedi'u hanafu.*
*Rhaid i bob claf sy'n cael trallwysiad gwaed wisgo band arddwrn adnabod claf sy'n cynnwys y dynodwr unigryw*.

PSN 066 Safer Temporary Identification Criteria for Unknown or Unidentified Patients (2023)[3]: *Dylai pob sefydliad sydd ag Adrannau Achosion Brys ddatblygu system ar gyfer adnabod cleifion anhysbys yn unigryw dros dro gan ddefnyddio'r system a amlinellir yn y PSN hwn.*

# Safonau ar gyfer Derbyn Samplau Cyn Trallwyso yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae casglu samplau gwaed cleifion ar gyfer profion cyn trallwysiad yn gam hanfodol yn y broses trallwyso gwaed. Mae'n hanfodol cwblhau'r ffurflen gais am drallwysiad, casglu samplau, labelu samplau a llenwi'r datganiad ysgrifenedig o wiriad adnabod claf llawn yn gywir er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a chynnal ansawdd y broses trallwyso.

Mae'r ***gofynion ansawdd*** a'r meini prawf canlynol yn amlygu agweddau hanfodol ar y broses samplu ac maent yn orfodol. Mae cymhwyso'r safonau hyn yn cefnogi ymagwedd unedig at **ddim goddefgarwch** ar draws Cymru.

## Diben yr Wybodaeth

Mae'r wybodaeth ar y ffurflen yn caniatáu cadarnhau'r dynodwyr craidd gyda'r claf cyn cymryd y sampl.
Mae'r wybodaeth ar y sampl yn caniatáu cadarnhau ei darddiad cywir cyn cynnal profion labordy.

## Swyddogaeth y Ffurflen

Pwrpas penodol y ffurflen yw:

- Rhoi cyfarwyddyd i gymryd sampl gwaed gan y claf.
- I'w defnyddio fel rhan o'r broses adnabod claf pan fo'r dynodwyr craidd yn cael eu gwirio ar lafar gan y claf (lle bynnag y bo modd) a'u gwirio yn erbyn y band arddwrn adnabod.
- Cyfathrebu'r cais i'r labordy trallwyso, h.y. yr hyn sydd ei angen, ar gyfer pa glaf ac ymhle a phryd y mae ei angen.
- Rhoi cadarnhad i'r labordy bod y sawl a gymerodd y sampl wedi gwirio hunaniaeth y claf cyn cymryd y sampl.

## Safonau ar gyfer Derbyn Samplau Cyn Trallwyso yng Nghymru

### Elfennau Allweddol

### 1. Adnabod Cleifion

Mae angen pedwar pwynt i adnabod claf:

| | |
|---|---|
| Rhif GIG neu ysbyty<br>Cyfenw<br>Enw cyntaf<br>Dyddiad geni | *Rhaid i'r manylion gyfateb yn union i'r wybodaeth gyfatebol ar y ffurflen gais. Mae anghysondeb o ran unrhyw un o'r meysydd hyn yn gyfystyr â sampl a fethwyd yn unol â'r* |

### 2. Llofnodion

- Dylai'r enw, llofnod a rhif cofrestru proffesiynol gael eu cofnodi ar y ffurflen gais trallwysiad gan y sawl sy'n gwneud y cais; mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd caniataëdig i gymryd y sampl gwaed.
- Dylai'r enw a'r llofnod gael eu cofnodi ar y ffurflen gan y sawl sy'n cymryd y sampl; dyma'r datganiad bod y claf wedi'i adnabod cyn i'r sampl gael ei gymryd a bod yr holl fanylion wedi'u cadarnhau ar lafar (lle bynnag y bo modd), ar y band arddwrn adnabod a'r ffurflen gais trallwysiad.
- Mae'r llofnod ar y sampl yn cadarnhau bod y sawl sy'n llofnodi yn cydnabod **ei** gyfrifoldeb i sicrhau bod y sampl yn gywir.

### 3. Dyddiad ac amser y sampl

Mae'r dyddiad a'r amser ar y sampl yn ofyniad UKAS[1]; mae'r data hyn yn sicrhau bod y sampl o fewn amserlen addas ar gyfer profi ac yn darparu cyfeirnod ar gyfer asesu dilysrwydd y sampl ar gyfer rhoi cyfansoddion gwaed.

## Safonau ar gyfer Derbyn Samplau Cyn Trallwyso yng Nghymru

### Cleifion Adnabyddadwy

**Gofyniad Ansawdd 1**

Rhaid i'r **sampl** gynnwys pob un o'r canlynol a rhaid iddo gydweddu'n union â'r wybodaeth gyfatebol ar y ffurflen gais am drallwysiad:

Dynodwyr Craidd:

1. Rhif GIG neu rif ysbyty
2. Cyfenw
3. Enw cyntaf
4. Dyddiad geni

5. Llofnod y casglwr

**Os oes unrhyw un o'r meini prawf ar goll neu'n anghyson, rhaid ail-gymryd y sampl**

*Gwybodaeth ychwanegol (ddim yn berthnasol at ddibenion cadarnhau bod y sampl wedi'i adnabod yn gywir*):

6. Rhaid i'r dyddiad casglu gael ei nodi ar y sampl (gofyniad UKAS)
7. Rhaid i'r amser casglu hefyd gael ei nodi ar y sampl ( gofyniad UKAS)

**Gofyniad Ansawdd 2**

Rhaid i'r tiwb sampl fod naill ai:

a. Wedi'i ysgrifennu â llaw ac yn ddarllenadwy neu

b. Wedi'i gwblhau gyda label wedi'i gynhyrchu wrth erchwyn y gwely ac wedi'i greu'n electronig trwy sganio band arddwrn adnabod y claf

Os nad yw dynodwyr craidd 1 – 4 ar y ffurflen a'r sampl yn cyfateb yn union, rhaid gwaredu'r sampl a hysbysu'r unigolyn perthnasol bod angen sampl newydd.  Mewn argyfwng pan fo angen gwaed ar frys, dylid dweud wrth y clinigydd i ddefnyddio gwaed Grŵp **O** (yn unol â chanllawiau[2] BSH) hyd nes y ceir sampl wedi'i labelu'n gywir.

## Safonau ar gyfer Derbyn Samplau Cyn Trallwyso yng Nghymru

### Cleifion anhysbys heb alluedd neu gleifion na allant gadarnhau ar lafar

Mae'r grŵp hwn o gleifion yn arbennig o agored i niwed, yn enwedig mewn sefyllfaoedd acíwt neu argyfwng. Mae'n hanfodol bod y cleifion hyn yn cael eu hadnabod yn unigol ac yn unigryw.
Pan fo cleifion yn anhysbys ac yn methu â darparu dynodwyr geiriol, mae'r un egwyddorion yn berthnasol ag ar gyfer cleifion sy'n gallu adnabod eu hunain. Y pwrpas felly yw defnyddio'r un nifer o ddynodwyr. Mae'r gofynion a ddefnyddir ar gyfer cleifion o'r fath wedi'u diffinio yn PSN066: *Safer Temporary Identification Criteria for Unknown or Unidentified Patients*[3].

**Gofyniad Ansawdd 1**
Rhaid i'r **sampl** ar gyfer claf anhysbys gynnwys pum pwynt adnabod, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gydweddu'n union â'r wybodaeth gyfatebol ar y ffurflen gais. Cydnabyddir y gallai fod gan ysbytai systemau eisoes ar waith a dylid cynnal asesiad risg o'r rhain yn erbyn y safonau gofynnol ar gyfer pwyntiau adnabod.

Meini Prawf Lleiaf:

| Dynodwyr Cleifion Hysbys | | Dynodwyr Cleifion Anhysbys |
|---|---|---|
| Rhif GIG neu rif ysbyty | **1** | Dylid defnyddio dynodwr unigryw o system rifo leol, rhif GIG brys, neu gyfres o ddigidau sydd ddim mewn dilyniant |
| Cyfenw | **2** | Cyfenw wedi'i gynhyrchu ar hap o wyddor ffonetig wedi'i golygu |
| Enw cyntaf | **3** | Enw cyntaf wedi'i gynhyrchu ar hap o wyddor ffonetig wedi'i golygu |
| Dyddiad geni | **4** | Amcangyfrif o'r dyddiad geni:<br>Cyfuno 01 Ionawr gyda blwyddyn geni amcangyfrifedig e.e. 01 Ionawr 1950.<br>Ar gyfer babanod newydd-anedig o dan 1 oed mae angen amcangyfrif o fisoedd |
| — | **5** | Amser derbyn |
| Llofnod y casglwr | **6** | Llofnod y casglwr |

**Os oes unrhyw un o'r meini prawf gofynnol ar goll neu'n anghyson, rhaid ailgymryd y sampl**

*Gwybodaeth ychwanegol (ddim yn berthnasol at ddibenion cadarnhau adnabod sampl yn gywir*):

7. Rhaid i'r dyddiad casglu hefyd fod yn bresennol ar y sampl (gofyniad UKAS)

## Safonau ar gyfer Derbyn Samplau Cyn Trallwyso yng Nghymru

8. Rhaid i'r amser casglu hefyd fod yn bresennol ar y sampl (gofyniad UKAS)

**Gofyniad Ansawdd 2**

Rhaid i'r tiwb sampl fod naill ai:

a. Wedi'i ysgrifennu â llaw ac yn ddarllenadwy neu

b. Wedi'i gwblhau gyda label wedi'i gynhyrchu wrth erchwyn y gwely ac wedi'i greu'n electronig trwy sganio band arddwrn adnabod y claf

Os nad yw'r holl feini prawf gofynnol yn cyfateb yn union ar y ffurflen a'r sampl, rhaid taflu'r sampl a hysbysu'r unigolyn perthnasol bod angen sampl newydd. Mewn argyfwng pan fo angen gwaed ar frys, dylid dweud wrth y clinigwr i ddefnyddio gwaed **O** (yn unol â chanllawiau[2] BSH) hyd nes y ceir y sampl cywir.

## Cyfeiriadau


1. UKAS: Medical Laboratories-Requirements for quality and competence (ISO 15189:2012): https://www.ukas.com/accreditation/standards/laboratory-accreditation/?gclid=Cj0KCQjwoeemBhCfARIsADR2QCtUSE3wdsnVsPFRwosvb-rqlEDLkbfDgrH_4dt0Yx5MFi8GRSgsxy8aAsY4EALw_wcB
2. BSH: A practical guideline for the haematological management of major haemorrhage (2022) https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/bjh.18275
3. PSN 066: Meini Prawf Adnabod Dros Dro Mwy Diogel ar gyfer Cleifion Anhysbys (2023): https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2023/03/20230208-PSN066-Unknown-patients.pdf